

Gwerthusiad o'r ffilm #AmserifodYnGaredig

Fe'ch gwahoddwyd i gymryd rhan mewn gwerthusiad o'r ffilm #AmserifodYnGaredig. Cyn i chi benderfynu a ydych chi am gymryd rhan, mae'n bwysig eich bod chi'n deall pam mae'r gwerthusiad yn cael ei wneud a beth mae cymryd rhan yn ei olygu. Os oes unrhyw beth nad yw'n glir, neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r ymchwilydd arweiniol gan ddefnyddio'r manylion isod.

1. Beth yw pwrpas yr astudiaeth?

Mae'r gwerthusiad hwn yn ceisio deall barn pobl ar y ffilm #AmserifodYnGaredig. Datblygwyd y ffilm gan Cowshed ar ran Hyb Cymorth ACE Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rydym am ddarganfod mwy am eich barn ar y ffilm, sut gwnaeth gwyllo'r ffilm wneud i chi deimlo ac a ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol ar ôl gwyllo'r ffilm.

Gallwch chi gymryd rhan yn yr holiadur os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn.

2. A oes rhaid i mi gymryd rhan?

Nac oes. Chi sydd i benderfynu a hoffech chi gymryd rhan.

3. Beth fydd yn digwydd i mi os cymeraf ran?

Gofynnir i chi lenwi holiadur byr ar-lein am eich barn am y ffilm #AmserifodYnGaredig. Ni ddylai'r holiadur gymryd mwy na 2-3 munud i'w lenwi.

Byddwn yn gofyn ichi am eich barn am y ffilm gan gynnwys sut y gwnaeth i chi deimlo neu a fyddai gwyllo'r ffilm yn gwneud ichi newid eich ymddygiad yn y dyfodol mewn unrhyw ffordd. Byddwn hefyd yn gofyn i chi roi eich oedran, rhyw, a'r wlad rydych chi'n byw ynddi. Nid ydym yn gofyn am eich enw, dyddiad geni na'ch cyfeiriad.

Bydd eich holl ymatebion yn ddienw ac yn gyfrinachol. Ni fydd unrhyw un arall yn gwybod eich bod wedi cymryd rhan.

4. A oes unrhyw risgiau/manteision cysylltiedig?

Nid oes unrhyw risgiau na manteision uniongyrchol i gymryd rhan. Nid oes rhaid i chi ateb unrhyw gwestiynau nad ydych chi am eu hateb.

5. A fydd y ffaith fy mod wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad yn gyfrinachol?

Os dewiswch gymryd rhan, bydd eich holl atebion yn aros yn gyfrinachol ac ni fydd neb heblaw'r tîm ymchwil yn gweld eich ymatebion. Mae croeso i chi dynnu'n ôl ar unrhyw adeg a stopio'r arolwg. Oherwydd bod eich ymatebion yn ddienw ac na allwn eu cysylltu â chi, ni fydd yn bosibl tynnu'ch atebion yn ôl ar ôl i chi lenwi'r holiadur, felly cymerwch amser nawr i ystyried a hoffech chi gymryd rhan.

Bydd data o'r holiaduron a lenwyd yn cael eu cadw gan y tîm ymchwil ar gyfrifiaduron a ddiogelir gan gyfrinair ym Mhrifysgol Bangor a'u rhannu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd yn cael ei ddadansoddi a bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio mewn adroddiadau, cyhoeddiadau academaidd eraill ac mewn cynadleddau.

Mae'r gwerthusiad hwn wedi derbyn cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Iechyd a Gwyddorau Meddygol Prifysgol Bangor.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech gyflwyno cwyn, cysylltwch â'r ymchwilydd:

Dr Kat Ford

Uned Gydweithredu Iechyd Cyhoeddus, Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor
k.ford@bangor.ac.uk

Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen y wybodaeth hon.